2.

A gyda’r hwyr, bwyta,
Cydeistedd a gwledda,
Ond cyn llenwi’r bola ’da’r bara,
Y Duw byw
Sy lawr ar ei ddeulin,
Ie, hwn, mab y brenin,
Yn golchi deg ewin y dwsin,
Mab Duw
Yn golchi traed blinedig, trwm
Y deuddeg chwyslyd, llychlyd, llwm,
Gwaredwr, ie, a’i gefn yn grwm,
Yn wargrwm,
Hwn heno
Yw’r athro isel wrth ei waith,
Y brenin llwm a’i ddwylo’n llaith,
A gweini ar y gwan yw’r gwaith
Unwaith,
Ganwaith,
Heb gwyno.